Cofnodion Cyfarfod Arferol o **GYNGOR TREF RHUTHUN** gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun ar nos Lun, 26 Hydref 2015 am 7:00 p.m.

PRESENNOL: Cyng. Anne Roberts (**Maer - Cadeirydd**)
Cyngr. Stephen Beach, James Bryan, June Derry, Ken Hawkins, Rosie Hughes-Moseley, Menna Jones, Simeon Jones, Robert Owen-Ellis, Geraint Woolford ac Emrys Wynne; hefyd Bobby Feeley, Cynghorydd Sir.

92. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Cyngr, Bob Costain, Elisabeth Culshaw, Ian Lewney ac Heather Williams.

93. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Derbyniwyd datganiadau o ddiddordeb mewn eitemau ar yr Agenda fel a ganlyn:
Datganod Cyng. Menna Jones, fel aelod o Bwyllgor y Gymdeithas, ddiddordeb personol yn yr eitem ganlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad ddilynodd
Datganodd Cyng. Anne Roberts, fel aelod o Bwyllgor y Gymdeithas, ddiddordeb personol yn yr eitem ganlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad ddilynodd
Cof. Rhif 101 – Ceisiadau am Gymorth Ariannol – (b) Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch parthed Drysau Agored.
Datganodd Cyng. Anne Roberts, gan fod Trysorydd y Gymdeithas yn nith iddi, ddiddordeb personol yn yr eitem ganlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad ddilynodd.
Cof. Rhif 101 – Ceisiadau am Gymorth Ariannol – (a) Cymdeithas Band Pres Gogledd Cymru

94. ADRODDIAD Y MAER

Dywedodd y Maer ei bod wedi mynychu'r canlynol ers y cyfarfod diwethaf:

30/09	Cyfarfod Clwb Rotary Rhuthun
01/10	Cymdeithas Efeillio Rhuthun
04/10	Sul Dinesig – Maer Rhuddlan
05/10	Cyfweliadau ar gyfer swydd Clerc y Dref
07/10	Hubbub – fforwm yn Llys Erw
09/10	Gwobrwyon Scottish Power - Llandudno
11/10	Sioe Dyrnu a Chynhaeaf – Marchnad Rhuthun
12/10	Cyfarfod Blynyddol Awelon
13/10	Cyfarfod Tîm y Dref
15/10	Cyfarfod Ymlaen Rhuthun
17/10	Ysgol Brynhyfryd – Banc Llaneurgain, Côr Pen Barras a Thriawd Nantclwyd
23/10	Cyfarfod Cynghorau Gogledd a Chanolbarth Cymru – Y Fflint
23/10	Cyfarfod Vale Carpets – Cynllun Gofal Busnes

95. ADRODDIADAU AELODAU

Cyng. Stephen Beach	Panel Cyfweld, Cymdeithas Efeillio Rhuthun, Cyfweliadau ar gyfer Clerc y Dref, Hubbub, Elusen Dyffryn Clwyd
Cyng. James Bryan	Pwyllgor Rheolaeth Canolfan Awelon
Cyng. Ken Hawkins	Parthed Cloc yr Eglwys
Cyng. Rosie Hughes-Moseley	Noson Caws a Gwin
Cyng. Menna Jones	Llys Goodman, Ysgol Borthyn, Cymdeithas Ddinesig
Cyng. Simeon Jones	Parthed Cloc yr Eglwys
Cyng. Robert Owen-Ellis	Banc Bwyd x 6, Ysgol Brynhyfryd, Cyfweliadau parthed Clerc y Dref, Canolfan Awelon, Lansio Grŵp Hanes, Ysgol Pen Barras x 2, Menter Iaith.
Cyng. Geraint Woolford	Cymdeithas Efeillio Rhuthun, Cyfweliadau. Gwobrwyon Scottish Power yn Llandudno, Tim y Dref, Ysgol Stryd y Rhos.
Cyng. Emrys Wynne	Grwp Apwyntio Clerc y Dref

96. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion y Cyfarfod Arferol a gynhaliwyd ar 28 Medi 2015*

97. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw fater yn codi.

98. PWYLLGOR AMWYNDERAU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2015.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y cofnodion.*

99. PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2015.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y cofnodion.*

100. IS-BWYLLGOR ARCHWILIO ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau drefnu dyddiad ar gyfer cyfarfod yr Is-bwyllgor yma. Aelodaeth: Cyngr. Elisabeth Culshaw, June Derry, Menna Jones ynghyd a'r Maer a'r Dirprwy Faer.
***PENDERFYNWYD**: bod y cyfarfod i'w gynnal yn dilyn y cyfarfodd Pwyllgorau nesaf.*

101. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL

(a) CYMDEITHAS BAND PRES GOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd Clerc y Dref Gais am Gymorth Ariannol (ynghyd a chopïau o'r Cyfrifon a Thaflenni Banc) gan y Mudiad uchod sydd yn trefnu'r Bencampwriaeth Flynyddol yn Rhuthun ar ddydd Sadwrn, 21 Tachwedd 2015.
***PENDERFYNWYD**: gwneud cyfraniad o £200 i'r Mudiad yma.*

(b) CYMDEITHAS DDINESIG RHUTHUN – DRYSAU AGORED

Cyflwynodd Clerc y Dref e-bost a thaenlen ddiwygiedig gan Robert Williams, Trysorydd y Mudiad uchod yn gofyn am gyfraniad ariannol o £731.95 sef y diffyg yn erbyn y ffigwr cyllid – cytunodd y Cyngor Tref i gyfraniad ychwanegol hyd at £1,000.00 yng nghyfarfod mis Mehefin 2015.
***PENDERFYNWYD**: gwneud cyfraniad ychwanegol o £731.95 tuag at ddigwyddiad Drysau Agored eleni.*

(c) CYNGOR AR BOPETH SIR DDINBYCH

Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr gan y mudiad uchod yn gofyn am gymorth ariannol i gynorthwyo Biwro Rhuthun (copi melyn) – mae £2,000 yn y gyllideb ar gyfer y Mudiad yma.
***PENDERFYNWYD**: cadarnhau'r cyfraniad blynyddol o £2,000 i'r Mudiad yma.*

102. MANDAD BANC – NEWID LLOFNODWYR

Derbyniodd yr aelodau gadarnhad o newid Trefniadau Arwyddo gan Fanc Barclays, pedwar mis wedi ei gyflwyno.

103. SUL COFFA – 8 TACHWEDD 2015

Derbyniodd yr aelodau fanylion am y trefniadau ar gyfer Sul Coffa eleni.

104. RALI CYMRU GB

Cyflwynodd Clerc y Dref ddau e-bost ychwanegol oddi wrth Peter McDermott, Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau, Cyngor Sir Ddinbych parthed yr uchod.
***PENDERFYNWYD**: cefnogi'r digwyddiad a bu tri Chynghorydd yn bresennol ar y diwrnod.*

105. CYNGOR SIR DDINBYCH – SIARTER GYDA CHYNGHORAU DINAS, TREF A CHYMUNEDAU

Cyflwynodd Clerc y Dref e-bost gan David W. Davies, Rheolwr Cymunedol, Cyngor Sir Ddinbych yn awgrymu mân newidiadau arfaethedig i'r Siarter.
***PENDERFYNWYD**: cadarnhau'r newidiadau.*

106. CYNGOR SIR DDINBYCH – ADRAN RHEOLAETH CYFLEUSTERAU

Derbyniodd yr aelodau ddiweddariad a bod Neuadd y Dref yn awr ym mherchnogaeth Cyngor Sir Ddinbych.

107. TREFNIADAU ARCHWILIO ALLANOL

Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr gan Swyddfa Archwilio Cymru yn dweud mai BDO LLP fydd yr archwilydd [allanol] statudol o 2015 / 2016 am gyfnod o dair blynedd.

PENDERFYNWYD*: derbyn y llythyr a nod ei gynnwys*

108. GRWP APWYNTIO CLERC Y DREF

Derbyniodd yr aelodau ddiweddariad gan y Grwp uchod gyfarfu yn ddiweddar i apwyntio Clerc y Dref newydd. Bu i bedair cael eu cyfweld ac i'r swydd wedyn cael ei chynnig i Mrs Sandra Williams, Llanbedr D.C. dderbyniodd. Bu yn dechrau ar ei dyletswyddau, yn cydweithio gyda Chlerc y Dref presennol, ar ddydd Llun, 2 Tachwedd 2015.

109. CYMDEITHAS CYNGHORAU GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU

Derbyniodd yr aelodau gopi o adroddiad a gyflwynwyd i Swyddfa'r Gweinidog dros Wasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru parthed dyfodol Cynghorau lleol.

110. DATGANIAD ARIANNOL

Cyflwynodd Clerc y Dref, fel Swyddog Ariannol Cyfrifol, ei Ddatganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31ain Awst 2015.

PENDERFYNWYD*: derbyn a mabwysiadu'r Datganiad Ariannol.*

111. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo talu'r eitemau canlynol:*

A.B.				
786	Sandra Williams	Cyfieithu	*	90.00
787	Inland Revenue	Treth ac Yswiriant Gwladol.		199.11
788	I.T.Williams Company Ltd	Cludo rhwystrrau – Marchnad Medi	*	180.00
789	Cyngor Sir Ddinbych	Gosod seddi a biniau ysbwriel newydd	*	1,194.00
790	Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru	Cyfarfod 23 Hydref yn Y Fflint – Cinio x 2		30.00
791	Ruthin Memorials	Plac i Sedd Gyhoeddus		150.00
792	Canolfan Awelon	Hurio ystafell – 5 Hydref ar gyfer cyfweliadau Clerc y Dref		15.00
793	Marian Rees	Cyfleusterau cyfieithu – 5 Hydref parthed	*	86.40
794	Fineline Printing	Cyflenwad swyddfa	*	17.44
795	G. J. Teeson Ltd.	Tarmac llwybr i'r ffrynt o'r Parc Sgrialu	*	933.90
796	Canda Copying Ltd	Copïau ychwanegol – du a gwyn	*	8.78
797	Canda Copying Ltd	Copïau ychwanegol - lliw	*	101.14
798	Dafydd Williams	Arian parod – stampiau ayyb		25.00
799	I.T.Williams Company Ltd	Hurio lori a drefiar par Planwyr a Baneri	*	594.00
800	Ground Control	Torri Glaswellt – Hydref 2015	*	462.07
801	Cymdeithas Band Pres	Cyfraniad		200.00
802	Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch	Cyfraniad ychwanegol parthed Drysau Agored		731.95
803	Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych	Cyfraniad Blynyddol		2,000.00

(Mae'r eitemau a nodir gyda * yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £632.81)

112. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau Dydd Llun, 23 Tachwedd 2015 fel dyddiad cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref.*